Skillsmark®
*Gwobrwyo rhagoriaeth*

# Skillsmark® Fframwaith Ansawdd ar gyfer Dysgu a Datblygu yn y sector Cyfiawnder a Diogelwch Cymunedol

SGILIAU er CYFIAWNDER
*Yn datblygu sgiliau ar gyfer cymunedau mwy diogel*

## **Skills**mark® yw'r nod ansawdd cydnabyddedig ar gyfer rhaglenni dysgu a datblygiad yn y sector Cyfiawnder a Diogelwch Cymunedol.

**Skills**mark®

- yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i ddysgwyr y maent eu hangen ar gyfer cael swyddi, a'r hyn y mae cyflogwyr ei eisiau gan eu staff
- yn dangos i ddysgwyr a chyflogwyr bod eich rhaglenni'n addas i'r pwrpas ac wedi'u diweddaru'n briodol
- yn dangos i gyflogwyr bod eich rhaglenni wedi'u llunio gan feddwl yn arbennig amdanyn nhw.

Mae rhaglenni ardystiedig wedi'u rhestru ar ein cronfa ddata **Skills**mark®, yr ydym yn eu hyrwyddo'n frwd i gyflogwyr allweddol ledled y DU.

Os ydych yn darparu rhaglenni dysgu i'r sector Cyfiawnder a Diogelwch Cymunedol, neu'n gobeithio ymestyn i mewn i'r farchnad hon, **Skills**mark® yw'r nod ansawdd i chi.

"*Mae cael **Skills**mark® yn hynod wobrwyol i ni ... Dyma 'ansawdd' mewn llawfer.*" Jenny Pelling, Ilex Tutorial College

Dim ond rhaglenni dysgu sy'n ateb gofynion fframwaith ansawdd **Skills**mark® sy'n derbyn ardystiad **Skills**mark®.

## Cwestiwn 1: Dadansoddiad

**Pa mor effeithiol yw eich asesiad o anghenion cyflogwyr a'ch defnydd o feincnodau allanol i ddatblygu eich rhaglen ddysgu?**

Dylai eich ymateb esbonio eich perthynas gyda chyflogwyr, sut rydych yn ymgysylltu â nhw i ganfod eu hanghenion a sut mae'r anghenion hyn yn siapio'r rhaglen ddysgu. Dylai eich ymateb esbonio sut rydych yn pennu ac yn defnyddio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol perthnasol (meini prawf perfformiad a/neu wybodaeth a dealltwriaeth) a meincnodau allanol perthnasol eraill i ddatblygu amcan(ion) y rhaglen ddysgu a'i deilliannau dysgu. Dylai eich ymateb hefyd ddangos y berthynas rhwng y rhain a'r deilliannau dysgu. Pan fydd cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol yn cael ei ddarparu, dylech esbonio sut rydych yn ei roi yn ei gyd-destun er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr.

**Agweddau Hanfodol**

**1.1** Mae anghenion cyflogwyr wedi'u pennu ac yn dylanwadu ar ddatblygu amcan(ion) a chanlyniadau dysgu

**1.2** Caiff Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a meincnodau allanol perthnasol eraill eu pennu ac maent yn dylanwadu ar ddatblygiad yr amcan(ion) a'r deilliannau dysgu

**1.3** Mae cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol, lle cânt eu defnyddio, yn ymateb i anghenion cyflogwyr

## Cwestiwn 2: Cynllun a datblygiad

**Pa mor effeithiol yw eich gwaith o lunio a datblygu eich rhaglen ddysgu i sicrhau bod y cynnwys yn cefnogi'r amcan(ion) a'r deilliannau dysgu?**

Dylai eich ymateb esbonio sut rydych wedi llunio'r rhaglen ddysgu o'i dechreuad nes ei bod yn barod i'w defnyddio. Dylech ddangos sut mae'r amcan(ion) a'r deilliannau dysgu wedi'u pennu ar lefel o fanylder sy'n gyson â chymhlethdod yr hyn sy'n cael ei ddarparu. Dylai eich ymateb ddangos sut rydych yn sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu amcan(ion) y rhaglen ddysgu ac yn paratoi'r dysgwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu, gyda dulliau o ddysgu sy'n gallu cefnogi dysgwyr i gyflawni'r rhain. Dylai cynllun eich rhaglen fapio'n glir sut y bydd adnoddau a gweithgareddau'n cael eu defnyddio i sicrhau bod amcan(ion) a deilliannau dysgu'r rhaglen ddysgu'n gallu cael eu cyflawni. Dylai eich cynlluniau sesiynau roi cyfarwyddiadau manwl am ddarparu sesiynau unigol. Yn rhan o'ch proses gynllunio dylech ddangos bod y rhaglen ddysgu wedi'i chymeradwyo gan awdurdod cyfrifol cyn iddi gael ei darparu'n gyntaf.

**Agweddau Hanfodol**

- **2.1** Mae'r amcan(ion) a'r deilliannau dysgu wedi'u pennu'n glir ar lefel y rhaglen ac ar gyfer sesiynau unigol
- **2.2** Mae'r deilliannau dysgu'n ymateb i anghenion dysgwyr a'u cyflogwyr
- **2.3** Mae'r deilliannau dysgu wedi'u gosod ar y lefel briodol i'r dysgwyr y mae'r rhaglen wedi'i bwriadu ar eu cyfer
- **2.4** Mae pynciau wedi'u gosod yn effeithiol yn eu trefn ac mae eu cynnwys, eu dyfnder a'u hehangder yn gyson â'r deilliannau dysgu
- **2.5** Caiff yr adnoddau eu pennu a'u diogelu i gefnogi cyflawniad y canlyniadau dysgu
- **2.6** Mae strategaethau asesu wedi'u pennu'n glir ac yn berthnasol i'r deilliannau dysgu
- **2.7** Mae'r cynnwys a'r defnyddiau'n cefnogi dysgwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu
- **2.8** Mae'r cynnwys a'r defnyddiau'n berthnasol ac wedi'u diweddaru
- **2.9** Nid oes gogwydd amhriodol yn y cynnwys a'r defnyddiau ac maent yn adlewyrchu anghenion amrywiol y dysgwyr
- **2.10** Mae'r dulliau darparu'n briodol ac wedi'u disgrifio'n fanwl
- **2.11** Rhoddir ystyriaeth i wahanol ddulliau dysgu a phrofiadau dysgu blaenorol
- **2.12** Mae cynllun rhaglen a chynlluniau sesiwn unigol yn eu lle
- **2.13** Mae cymeradwyaeth ffurfiol i'r rhaglen ddysgu wedi'i sicrhau a'i harwyddo

## Cwestiwn 3: Cyflenwi

**Pa mor effeithiol ydych yn y ffordd rydych yn cyflenwi'r rhaglen ddysgu i gefnogi dysgwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu?**

Dylai eich ymateb ddangos sut caiff y rhaglen ei rheoli'n gyffredinol i sicrhau bod pob cyfle gan ddysgwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu. Dylech esbonio sut rydych yn sicrhau bod tiwtoriaid a hyfforddwyr yn defnyddio dulliau ac arddulliau dysgu a hyfforddi sy'n cefnogi dysgwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu. Dylech ddangos sut y defnyddir adborth i alluogi dysgwyr i ddatblygu yn ystod y rhaglen. Dylech esbonio fel mae tiwtoriaid a hyfforddwyr yn hybu cyfle cyfartal a chynhwysedd er budd y dysgwr. Yn eich adolygiad parhaus o diwtoriaid a hyfforddwyr dylech esbonio eich trefniadau i adolygu eu perfformiad, gan gynnwys arsylliad, a mynd i'r afael â'u hanghenion datblygiad. Dylech ddangos sut rydych yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i diwtoriaid a hyfforddwyr sy'n eu galluogi i fod yn effeithiol. Dylech ddangos bod nifer ddigonol o diwtoriaid a hyfforddwyr yn eu lle i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflenwi'n effeithiol.

**Agweddau Hanfodol**

- **3.1** Mae rheolaeth y rhaglen y sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni'r deilliannau dysgu
- **3.2** Mae dulliau a ffyrdd o addysgu a hyfforddi'n galluogi dysgwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu
- **3.3** Mae tiwtoriaid a hyfforddwyr yn defnyddio adborth i hysbysu dysgwyr unigol am eu cynnydd a sut y gallent wella
- **3.4** Mae addysgu a hyfforddi'n hybu cydraddoldeb cyfle a chynhwysedd
- **3.5** Mae digon o diwtoriaid a hyfforddwyr i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu cyflenwi'n effeithiol
- **3.6** Mae gan diwtoriaid a hyfforddwyr yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol diweddaraf
- **3.7** Caiff perfformiad tiwtoriaid a hyfforddwyr ei adolygu'n rheolaidd ac maent yn derbyn cefnogaeth briodol i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus
- **3.8** Defnyddir offer, defnyddiau ac adeiladau'n effeithiol i hybu dysgu
- **3.9** Mae'r adnoddau'n ddigonol i ganiatáu i ddysgwyr gyfranogi'n llawn
- **3.10** Defnyddir technoleg yn effeithiol, lle bo'n briodol, i gefnogi a galluogi dysgu

## Cwestiwn 4: Asesu dysgwyr

**Pa mor effeithiol yw eich asesiad o lwyddiant y dysgwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu?**

Dylai eich ymateb ddangos sut rydych yn asesu cyflawniad dysgwyr unigol o'r deilliannau dysgu, a ydyw'r rhaglen ddysgu'n arwain at gymhwyster neu beidio. Dylech ddangos eich bod yn defnyddio ystod o ddulliau i adolygu cynnydd y dysgwr o ran dysgu gwybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau, dylai ffocws eich ymateb fod ar eich dulliau o asesu'n adolygol a sut y caiff y rhain eu defnyddio. Dylech ddangos bod fformatau a dulliau asesu adolygol yn briodol a bod cyfle i ddysgwyr ddangos beth maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Dylai eich asesiadau fod yn gymesur, yn amserol, yn deg, cyson, dibynadwy a chywir. Dylech esbonio sut caiff canlyniadau eich asesiad eu cofnodi a sut mae eich diogelu rhag llên-ladrad a thwyllo'n effeithiol.

**Agweddau Hanfodol**

- **4.1** Mae gan y rhaglen ddysgu gynllun wedi'i ddiffinio'n glir sy'n dangos sut y gwneir ac y rheolir asesiad
- **4.2** Mae'r cynllun asesu'n gyson â'r strategaeth asesu
- **4.3** Mae'r dulliau asesu'n effeithiol ac yn briodol ac yn galluogi i ddysgwyr gyflawni'r deilliannau dysgu
- **4.4** Rhoddir adborth adeiladol i ddysgwyr am eu perfformiad yn yr asesiad, gan gynnwys sut y gallent wella os na chaiff y deilliannau dysgu eu cyflawni
- **4.5** Mae asesiadau'n ddilys, yn deg, yn ddibynadwy ac yn gyson ar draws yr aseswyr dros amser
- **4.6** Cofnodir canlyniadau'r asesiad
- **4.7** Mae trefnau diogelu priodol rhag llên-ladrad a mathau eraill o dwyllo

## Cwestiwn 5: Adolygiad a gwerthusiad

**Pa mor effeithiol ydych chi'n dadansoddi a dehongli adborth a data i sicrhau gwelliannau i'r rhaglen ddysgu?**

Dylai eich ymateb esbonio sut rydych yn monitro ac yn adolygu'r rhaglen ddysgu er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n gyfredol. Dylech ddangos sut mae'r rhaglen ddysgu'n parhau'n ddilys yng nghyd-destun yr arferion gweithio a'r wybodaeth sy'n datblygu. Dylech ddangos sut mae eich perthynas barhaus gyda chyflogwyr yn eich galluogi i ymateb i'w hanghenion newidiol. Dylech esbonio sut rydych yn adolygu pob agwedd o'r rhaglen ddysgu'n rheolaidd a dangos ymhle a sut rydych wedi gwneud gwelliannau. Dylech ddangos sut rydych yn gwneud adolygiad ehangach i ystyried a yw eich rhaglen ddysgu'n parhau'n ddilys a pherthnasol. Dylech ddangos bod rheoli adolygiad a data gwerthusiad yn arwain at welliant yn y rhaglen ddysgu.

**Agweddau Hanfodol**

- **5.1** Bydd adborth ystyrlon a defnyddiol wedi'i gasglu a'i werthuso'n rheolaidd gan y cyflogwyr a'r dysgwyr, a cheir ymateb effeithiol i'r canfyddiadau
- **5.2** Caiff data cyflawniad y dysgwr ei gofnodi a'i adolygu ac mae'n cyfrannu at ddatblygiad rhaglenni
- **5.3** Mae'r cynllun gwerthuso'n gyson â'r strategaeth werthuso
- **5.4** Caiff y rhaglen ddysgu ei hadolygu'n barhaus ac yn gyfnodol i gadarnhau ei bod yn parhau'n briodol neu i ganfod unrhyw angen am welliant
- **5.5** Mae rheoli adolygiad a gwerthusiad yn sicrhau bod deilliannau'r gweithgareddau yma'n cael eu riportio a'u gweithredu

SGILIAU er CYFIAWNDER

*Yn datblygu sgiliau ar gyfer cymunedau mwy diogel*

Skillsmark

*Gwobrwyo rhagoriaeth*

FFÔN : 0114 231 7386
E-BOST : skillsmark@skillsforjustice.com
GWEFAN : www.skillsforjustice.com/skillsmark
Skills for Justice / Sgiliau er Cyfiawnder |
Centre Court | Atlas Way | Sheffield | S4 7QQ

**www.skillsforjustice.com**

Hawlfraint © 2010 Sgiliau er Cyfiawnder Cyf.
Cedwir pob hawl.

INVESTOR IN PEOPLE
BUDDSODDWR MEWN POBL